CYHOEDDIAD

# Cyfarfod Pwyllgor y Cabinet ar Ogledd Cymru: 26 Ionawr 2023

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Cabinet ar Ogledd Cymru ar 26 Ionawr 2023. (Cyfarfod hybrid: Teams/Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llandudno)

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 16 Mawrth 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 16 Mawrth 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-pwyllgor-y-cabinet-ar-ogledd-cymru-26-ionawr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


**Yn bresennol**

**Cyflwyniad**

**Iechyd yng Ngogledd Cymru**

**Diweddariad ar drafnidiaeth**

**Yr Ardoll Ymwelwyr**

**Diweddariad Economaidd**



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-pwyllgor-y-cabinet-ar-ogledd-cymru-26-ionawr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Yn bresennol

- Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS
- Lesley Griffiths AS (Cadeirydd)
- Mick Antoniw AS
- Rebecca Evans AS
- Vaughan Gething AS
- Jane Hutt AS
- Jeremy Miles AS
- Eluned Morgan AS
- Hannah Blythyn AS
- Dawn Bowden AS
- Lynne Neagle AS
- Lee Waters AS

## Arweinwyr Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru

- Y Cyng. Charlie McCoubrey, Conwy
- Y Cyng. Jason McLellan, Sir Ddinbych
- Y Cyng. Llinos Medi, Ynys Môn (rhan o'r cyfarfod)
- Y Cyng. Mark Pritchard, Wrecsam
- Y Cyng. Ian Roberts, Sir y Fflint
- Y Cyng. Dyfrig Siencyn, Gwynedd

## Mynychwyr allanol eraill

- Yr Arglwydd Terry Burns, Cadeirydd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru
- Chris Llewelyn, Prif Weithredwr, CLILC

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-pwyllgor-y-cabinet-ar-ogledd-cymru-26-ionawr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Swyddogion Llywodraeth Cymru

- Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol
- Rebecca Dunn, Pennaeth Is-adran y Cabinet
- Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
- Clare Jenkins, Cynghorydd Arbennig
- Alex Bevan, Cynghorydd Arbennig
- Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
- Sam Hadley, Cynghorydd Arbennig
- Owen John, Cynghorydd Arbennig
- Phillippa Mawdsley, Cynghorydd Arbennig
- Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol, HSC
- Reg Kilpatrick. Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adfer ar ôl Covid, Llywodraeth Leol
- Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, CCRA
- Claire McDonald, Polisi Economaidd
- Catrin Sully, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet
- Elin Gwynedd, Dirprwy Gyfarwyddwr Gogledd Cymru
- Olivia Shorrocks, Pennaeth Cyflyrau Difrifol, GIG Cymru (eitem 2)
- Lea Beckerleg, Swyddog Arweiniol Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (eitem 3)
- Anna Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol (eitem 4)
- Christopher W Morgan, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Tomos Roberts, Is-adran y Cabinet
- Thomas Dowding, Is-adran y Cabinet
- Bryn Richards, Pennaeth Cynllunio Rhanbarthol – Gogledd Cymru
- Heledd Cressey, Uwch Swyddog Cynllunio Rhanbarthol – Gogledd Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-pwyllgor-y-cabinet-ar-ogledd-cymru-26-ionawr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ymddiheuriadau

- Julie James AS
- Julie Morgan AS

# Eitem 1: Cyflwyniad a chroeso

1.1 Croesawodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd bawb i'r cyfarfod ac esboniodd fod blaengynllun gwaith bellach yn seiliedig ar y materion y mae'r Gweinidogion, Arweinwyr, ac eraill wedi'u codi. Ar gyfer y cyfarfod nesaf bydd ffocws ar Addysg yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i weithio gydag Iwerddon a Gogledd Lloegr. Nododd y bwriad i wahodd Meiri Lerpwl a Manceinion a Chonswl Iwerddon i drafod gweithio mewn partneriaeth a chryfhau cysylltiadau.

1.2 O ran tai, cynhelir uwchgynhadledd yn fuan yn ymwneud â llygredd ffosfforws a'i effaith ar dai a datblygu. Byddai diweddariad yn cael ei roi i'r pwyllgor yn dilyn y cyfarfod hwnnw.

# Eitem 2: Iechyd yng Ngogledd Cymru – Y diweddaraf gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2.1 Rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddiweddariad a throsolwg ar iechyd yng Ngogledd Cymru.

2.2 Y cyd-destun presennol i Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr oedd ei fod yn destun statws Ymyrraeth wedi'i Thargedu, ac roedd pryderon yn amlwg am yr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-pwyllgor-y-cabinet-ar-ogledd-cymru-26-ionawr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

heriau sy'n wynebu'r rhanbarth.

2.3 Er gwaethaf hynny, roedd yn glir bod y bwrdd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r heriau a achoswyd gan weithredu diwydiannol a phwysau'r gaeaf, ond roedd problem o hyd gydag oedi wrth drosglwyddo gofal. Roedd gormod o bobl yn aros mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, roedd angen mynd i'r afael ag amseroedd aros ar gyfer gofal a gynlluniwyd ac nid oedd lefelau gweithgarwch wedi mynd yn ôl eto i lefelau cyn Covid. Roedd llawer o achosion lle'r oedd gwasanaethau ar draws y rhanbarth yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r galw cynyddol.

2.4 Adroddwyd bod trafodaethau cadarn wedi digwydd gyda'r bwrdd iechyd a bod blaenoriaethau clir ar gyfer darparu gwasanaethau wedi cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys datblygu perthynas agosach rhwng y GIG ac Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal. Yn ogystal, roedd angen i fynediad at ymarfer cyffredinol, deintyddiaeth, optometreg a fferylliaeth wella.

2.5 Dylai gofal brys a gofal mewn argyfwng ganolbwyntio ar reoli pobl sydd ag anghenion gofal brys yn effeithiol yn y gymuned bob awr o'r dydd a helpu mwy o bobl i gael mynediad diogel at ddewisiadau amgen i ofal yn yr ysbyty.

2.6 Roedd angen gwelliannau i ofal ac adfer a gynlluniwyd a chanolbwynt ar ddarparu gwasanaethau canser a lleihau'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros dros 62 diwrnod am eu triniaeth ar y llwybr canser. Roedd angen gwelliannau ym maes gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed ar draws yr holl wasanaethau oedran ac roedd angen i degwch a chydraddoldeb rhwng gwasanaethau corfforol ac iechyd meddwl fod yn fwy gweladwy.

2.7 Byddai'r blaenoriaethau hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r pwysau uniongyrchol ac i adeiladu gwasanaeth iechyd a gofal cynaliadwy yn ystod y flwyddyn nesaf.

2.8 Ffocws arall i Lywodraeth Cymru oedd sicrhau bod y neges yn cael ei

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-pwyllgor-y-cabinet-ar-ogledd-cymru-26-ionawr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

throsglwyddo y gallai pob un unigolyn helpu'r GIG drwy ofalu am ei iechyd a'i lesiant ei hun a chymryd camau i gadw'n iach. Roedd cydweithio i gynnwys pob person yng Ngogledd Cymru i greu poblogaeth iachach, lleihau'r pwysau ar wasanaethau acíwt y GIG a gwella canlyniadau yn y tymor hwy yn nod allweddol.

2.9 Yna clywodd y Pwyllgor gyflwyniad a oedd yn ymdrin â'r materion iechyd mwyaf amserol yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer recriwtio gweithredol i'r Bwrdd; datblygu Academi Ddeintyddol Gogledd Cymru ac Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, y byddai'r ddau ohonynt yn trawsnewid gwasanaethau yn yr ardal.

2.10 Roedd gwaith yn mynd rhagddo i greu Labordy Meddygaeth Niwclear Cenedlaethol, a fyddai'n cyflenwi radioisotopau meddygol ar gyfer diagnosis a thrin clefydau megis canser ac fe fyddai'n ganolfan ragoriaeth fyd-eang mewn meddygaeth niwclear, gan greu swyddi medrus iawn.

2.11 Roedd canllawiau ar ryddhau cleifion wedi'u rhoi i fyrddau iechyd ym mis Rhagfyr, a gynlluniwyd i'w cefnogi i wneud y gorau o'u lleoliadau capasiti ysbytai trwy eu rhyddhau'n ddiogel ac amserol, gan weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, y Trydydd Sector a theuluoedd i leihau nifer y cleifion nad oedd eu hangen mwyach mewn ysbyty.

2.12 Nodwyd bod gan Gymru 270 o welyau ar gyfartaledd i bob 100,000 o'r boblogaeth, tra oedd gan Loegr tua 170 o welyau i bob 100,000. Wedi dweud hynny, roedd mynd i'r afael â'r mater trosglwyddo yn hanfodol er mwyn lleddfu pwysau ac roedd pob partner yn cael ei annog i gydweithio i fynd i'r afael â'r mater.

2.13 Cafodd nifer o faterion eraill gan gynnwys pwysau'r gaeaf, effeithiau gweithredu diwydiannol, Covid-19 a feirysau anadlol eraill a gofal a gynlluniwyd a gofal sylfaenol eu trafod, a chroesawodd y Pwyllgor y diweddariadau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-pwyllgor-y-cabinet-ar-ogledd-cymru-26-ionawr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

2.14 O ran gwariant cyfalaf ar gyfer prosiectau newydd mewn ysbytai, nodwyd bod y sefyllfa'n anodd iawn yn dilyn datganiad cyllidol Llywodraeth y DU. Ynghlwm â hyn roedd y gwaith cynllunio manwl ar gyfer yr ystad ysbytai ehangach dros y deng mlynedd nesaf.

2.15 Croesawodd y Pwyllgor gyflwyniad y gwasanaeth 111 – Pwyswch 2, a oedd yn drawsnewidiad sylweddol o ran mynediad at gymorth iechyd meddwl, gyda mynediad uniongyrchol at ymarferwyr llesiant bob awr o'r dydd o fis Mawrth ymlaen.

2.16 Nododd y Pwyllgor y datblygiadau mawr a'r heriau sy'n dal i gael eu hwynebu gan y rhanbarth a chytunodd i gydweithio i sicrhau gwelliant parhaus ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.

## Eitem 3: Diweddariad ar drafnidiaeth gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd a'r newyddion diweddaraf am yr Adolygiad Ffyrdd gan yr Arglwydd Burns

3.1 Dechreuodd y Pwyllgor drwy groesawu lansiad y fflyd drenau newydd Dosbarth 197 yng ngorsaf reilffordd Cyffordd Llandudno yn gynharach y diwrnod hwnnw.

3.2 Nododd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd y cyd-destun ar gyfer yr Adolygiad Ffyrdd, cyn trosglwyddo'r awenau i'r Arglwydd Burns, Cadeirydd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru i nodi'r Datganiad ar Gynnydd a gyhoeddwyd y diwrnod hwnnw ar waith y Comisiwn.

3.3 Daeth yr adroddiad â chryn dipyn o ddata a thystiolaeth a gasglwyd gan y Comisiwn ynghyd dros gyfnod cyntaf ei waith, a oedd wedi caniatáu iddo nodi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-pwyllgor-y-cabinet-ar-ogledd-cymru-26-ionawr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

materion a chyfleoedd.

3.4 Adroddwyd mai cerbydau preifat oedd y prif fodd o deithio o fewn y rhanbarth, gyda'r rhan fwyaf o deithiau'n lleol eu natur ac yn llai na 15 cilometr.

3.5 Yn ogystal, roedd yn glir bod teithiau'n llifo yn bennaf i Ogledd Cymru ac oddi yno i mewn i Ogledd-orllewin Lloegr, ac roedd hyn yn cyfrif am y llif trawsffiniol mwyaf ledled Cymru. Roedd llifoedd cerbydau preifat sylweddol hefyd ar hyd coridor yr A55, yn arbennig rhwng Llandudno a Chaer. Felly, roedd cysylltiadau trawsffiniol effeithiol trwy bob modd o deithio yn hanfodol i Ogledd Cymru.

3.6 Nododd y Comisiwn fod llwybr yr A55 / A494 yn ddeniadol ac yn gyflym i gerbydau preifat rhwng canolfannau poblogaeth i mewn i'r rhanbarth ac ar draws y rhanbarth. Nid oedd y llwybr hwn yn dioddef tagfeydd difrifol a rheolaidd, yn wahanol i'r darn o'r M4 a ystyriwyd gan Gomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru. Roedd hyn yn cyflwyno her o ran sicrhau mwy o ddefnydd o opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy.

3.7 O ran y rheilffyrdd, roedd gwasanaethau'n gyfyngedig i goridorau penodol o fewn y rhanbarth, ac yn canolbwyntio'n bennaf ar y llain arfordirol, y Gororau a Chaer. Yn aml mae gan drefi sy'n bell o goridorau'r llain arfordirol, y Gororau a Chaer–Amwythig gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig neu ddim o gwbl, a hynny yn aml gydag amseroedd teithio cymharol hir o'i gymharu â char preifat. Roedd rhwystrau hefyd o ran cynyddu gwasanaethau teithwyr ar rannau cyfyngedig o'r rheilffordd megis trac sengl neu lwybrau cludo nwyddau.

3.8 Datgelodd y dystiolaeth fylchau sylweddol mewn cyfleoedd trafnidiaeth gyhoeddus oedd yn bodoli eisoes, gan gynnwys mynediad at wasanaeth bob awr, yn enwedig gyda'r nos ac ar y penwythnos ac mewn ardaloedd i ffwrdd o'r coridor arfordirol, ar draws ardaloedd deheuol y rhanbarth, Penrhyn Llŷn a Wrecsam wledig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-pwyllgor-y-cabinet-ar-ogledd-cymru-26-ionawr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

3.9 Cydnabu'r Pwyllgor fod cyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau rheilffyrdd a phrosiectau eraill i wella trafnidiaeth yn fater o bwys yn dilyn datganiad cyllidol Llywodraeth y DU yn ddiweddar.

3.10 Roedd y Comisiwn wedi dod i'r casgliad bod achos dros fuddsoddi mewn rheilffyrdd yn y rhanbarth ar hyd y coridorau poblog, megis yng ngorsaf Glannau Dyfrdwy, ynghyd â gwella cysylltiadau rhwng Wrecsam a Lerpwl i wella trafnidiaeth gyhoeddus i safleoedd cyflogaeth a datblygu allweddol. Er hynny, i lawer yn y rhanbarth, y mecanwaith â'r effaith uchaf ar gyfer newid dulliau teithio o safbwynt cyrhaeddiad daearyddol ac amserlenni tebygol, oedd teithiau bws a theithio llesol.

3.11 Roedd y Comisiwn am weld datblygu rhwydwaith bysiau ehangach a mwy hygyrch gyda gwasanaethau amlach ac oriau gweithredu hirach. Byddai hefyd yn cefnogi buddsoddiad mewn llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus penodol a mesurau blaenoriaeth i fysiau i gefnogi llwybrau gorlawn, lle bo'n ymarferol.

3.12 Awgrymwyd mai'r her fyddai sicrhau y gallai llwybrau bysiau wasanaethu cymunedau mwy gwledig a chyrraedd pellteroedd hirach a nodwyd y byddai cymysgedd o opsiynau yn cael eu hystyried i sicrhau rhwydwaith integredig sy'n gwneud y defnydd gorau o deithio llesol ar ddechrau a diwedd teithiau.

3.13 Roedd y Comisiwn wedi nodi bod lefelau teithio llesol yn dal yn isel, er bod cyfran uchel o'r teithiau a wnaed yn deithiau byr iawn. Felly, cynigiodd ddatblygu rhwydweithiau teithio llesol gwell gyda phwyslais ar ddarpariaeth o ansawdd llawer uwch, ochr yn ochr â seilwaith pwrpasol ar wahân a gwell cefnogaeth i'r Awdurdodau Lleol gyflawni.

3.14 O ran teithiau ceir, cydnabuwyd y byddai angen i'r ymagwedd at leoliadau gwledig a threfol fod yn wahanol, a gallai cerbydau trydan ddarparu rhan o'r ateb, yn ogystal â chynlluniau rhannu ceir.

3.15 Argymhellodd y Comisiwn hefyd flaenoriaethu cynlluniau a oedd yn dangos

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-pwyllgor-y-cabinet-ar-ogledd-cymru-26-ionawr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwell ymdriniaeth o gysylltiadau allweddol o un ardal wledig i'r llall, gan gynnwys trafnidiaeth sy'n seiliedig ar alw.

3.16 Diolchodd y Pwyllgor i'r Arglwydd Burns am y diweddariad ac roedd yn edrych ymlaen at gam nesaf ymgysylltiad i wella trafnidiaeth ar draws y rhanbarth ochr yn ochr â'r holl bartneriaid cyflenwi.

## Eitem 4: Diweddariad ar yr Ardoll Ymwelwyr

4.1 Rhoddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ddiweddariad ar waith i gyflwyno ardoll ymwelwyr yng Nghymru, a oedd yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru ac a oedd wedi'i drafod yn fanwl gydag Arweinwyr yr Awdurdodau Lleol.

4.2 Roedd nifer sylweddol o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dod i law ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i ystyried y rheini.

4.3 Roedd gwaith wedi bod yn mynd rhagddo gyda phartneriaid cyflenwi gan gynnwys yr Awdurdodau Lleol a busnesau twristiaeth, y trydydd sector, Awdurdod Cyllid Cymru a gweithredwyr tramor ac ar-lein, gyda phedwar digwyddiad ymgysylltu yn cael eu cynnal ledled y wlad.

4.4 Roedd mater ail gartrefi a'r dreth gyngor yn dal i gael ei ystyried o ran y goblygiadau ymarferol ar gyfer yr ardoll, a diolchodd y Pwyllgor i Arweinwyr yr Awdurdodau Lleol am eu hymgysylltiad drwyddi draw.

4.5 Cydnabuwyd bod safbwyntiau gwahanol ynghylch cyflwyno ardoll, ond cafwyd llawer o enghreifftiau tramor lle'r oedd polisi o'r fath yn gweithio'n llwyddiannus ac yn sicrhau buddion i gymunedau lleol. Atgoffwyd arweinwyr mai mater i'r Awdurdod fyddai penderfynu a yw am gyflwyno ardoll. Yn ogystal, byddai hyn yn enghraifft dda o ble y gallai datganoli pellach gan Lywodraeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-pwyllgor-y-cabinet-ar-ogledd-cymru-26-ionawr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cymru i'r Awdurdodau Lleol fod o fudd i gymunedau drwy benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn seiliedig ar angen a galw lleol.

4.6 Croesawodd y Pwyllgor y diweddariad.

# Eitem 5: Diweddariad Economaidd

5.1 Rhoddodd Gweinidog yr Economi ddiweddariad ar gyflwr presennol yr economi gan nodi bod dirwasgiad yn debygol, ond o bosibl ddim mor ddifrifol ag yr oeddem wedi ofni yn wreiddiol. Er gwaethaf hynny, roedd posibilrwydd y byddai rhwng 20,000 a 40,000 o swyddi yn cael eu colli dros y 18 mis nesaf a byddai angen i Lywodraeth Cymru gydbwyso cefnogi'r busnesau hynny a oedd yn hyfyw yn erbyn cefnogi twf ar draws yr economi ehangach.

5.2 Roedd enghreifftiau eisoes o gau busnesau, gyda chyhoeddiad diweddar gan y ffatri 2 Sisters yn Ynys Môn a thrafodaethau yn parhau gyda'r cwmni ynghylch pa gymorth a allai gael ei roi i'r gweithlu.

5.3 Trefnwyd cyfarfod o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ym mis Mawrth a byddai adroddiad pellach yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor.

5.4 Nodwyd bod tynnu arian Ewropeaidd yn ôl yn golygu bod dros £1bn mewn buddsoddiad yn cael ei golli i'r economi dros bedair blynedd, ac roedd yn amlwg nad oedd Cronfeydd Codi'r Gwastad a Chronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU yn cyrraedd pob ardal.

5.5 O ran Porthladdoedd, byddai buddsoddiad ym mhob porthladd yng Nghymru, gyda'r potensial ar gyfer porthladdoedd rhydd i greu swyddi cynaliadwy.

5.6 Adroddwyd fod parthau buddsoddi Llywodraeth y DU wedi cael eu lleihau o'i gymharu â'r cynlluniau gwreiddiol, gyda 12 yn cael eu hawgrymu ar draws y DU,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-pwyllgor-y-cabinet-ar-ogledd-cymru-26-ionawr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ac o leiaf un yng Nghymru. Byddai'r diwydiannau technoleg uwch, sy'n seiliedig ar wybodaeth yng Ngogledd Cymru yn cael eu hyrwyddo ar gyfer buddsoddiad.

5.7 Cydnabu'r Pwyllgor mai prin oedd yr ymgysylltu â chydweithwyr yn Llywodraeth y DU o gofio'r aflonyddwch gwleidyddol diweddar, ond bod sgyrsiau pellach yn mynd i gael eu cynnal gyda James Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru am yr economi a buddsoddiad yng Nghymru.

5.8 Croesawyd y newyddion cadarnhaol am y datblygiadau yn ymwneud â'r diwydiant niwclear yng Ngogledd Cymru, gyda Thrawsfynydd ac Ynys Môn yn y drefn honno yn rhan o'r rhaglen adweithydd bach a chanolig a datblygu radioisotopau.

5.9 Roedd buddsoddiad ehangach gan Lywodraeth Cymru wedi gweld cwmnïau mawr megis Toyota a Siemens yn cynyddu eu presenoldeb yng Ngogledd Cymru, ynghyd â'r diwydiant hancesi papur ac Airbus.

5.10 I grynhoi, roedd yn glir y byddai heriau mawr o'n blaenau i'r economi, ond roedd digon o gyfleoedd ar gyfer datblygu yn y rhanbarth hefyd.

5.11 Diolchodd y Pwyllgor i'r Gweinidog am y diweddariad a nodi y byddai dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf yn cael ei gylchredeg maes o law.

Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
Chwefror 2023

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-pwyllgor-y-cabinet-ar-ogledd-cymru-26-ionawr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.